**ATODIAD 5**

# Ymgynghoriad Cyllideb Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 2020/21 Adroddiad Cryno


Cyflwyniad ..... 2
Methodoleg ..... 2
Ymgyrch Cyfryngau a Chyfryngau Digidol ..... 3
Arolwg ..... 3
Cyfathrebu Ysgrifenedig gyda'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol a grwpiau rhanddeiliaid allweddol ..... 4
Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb ..... 4
Sesiynau Galw Heibio Cyhoeddus ..... 4
Cyfarfod y "Panel Safbwynt" ..... 5
Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb Ychwanegol â Rhanddeiliaid ..... 6
Ymatebion ..... 7
Arolwg ..... 7
Deisebau ..... 8
Canfyddiadau a Themâu Allweddol ..... 9
Cynnydd yn Nhreth y Cyngor (239 ymateb) ..... 9
Os nad trwy gynnydd yn Nhreth y Cyngor, pa fodd arall y gallwn ni gyrraedd yr arbedion angenrheidiol, yn eich barn chi ..... 10
Barnau ynghylch y cynigion arbedion ..... 10
Meysydd o bryder uchaf ..... 10
Barn Gymysg ..... 10
Meysydd y cytunwyd arnynt ..... 11
Themâu cyffredinol ..... 11
Goblygiadau cydraddoldeb ..... 11
Syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau'n wahanol er mwyn diwallu anghenion trigolion heddiw a'r dyfodol ..... 12
Sut y gall y gymuned ehangach weithio i gynorthwyo Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n wahanol ..... 12

## Cyflwyniad

Ystyriodd y Cabinet gyfres o gynigion cyllideb drafft gwerth bron i £8.5 miliwn ar 13 Tachwedd 2019, ynghyd â chynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor o 6.95% i dalu am y diffyg sy'n weddill.

Ceisiwyd barn trigolion a rhanddeiliaid ar y cynigion drafft dros gyfnod 6 wythnos o **18 Tachwedd 2019 i 13 Ionawr 2020**, gyda sylwadau o'r ymgynghoriad yn cael eu cyflwyno a'u hystyried gan y Cabinet ar 12 Chwefror 2020 cyn cytuno ar gyllideb derfynol ar gyfer 2020/21 yn ystod cyfarfod arbennig y Cyngor llawn ar **20 Chwefror 2020.**

## Methodoleg

Digwyddodd ymgynghoriad ffurfiol ar y cynigion arbedion drafft ar gyfer 2020/21 rhwng **18 Tachwedd 2019 a 13 Ionawr 2020**. Cyn hynny, roedd cyfnod o ymgysylltu, rhannu gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.

Mae elfennau allweddol y cyfnod ymgysylltu a'r ymgynghoriad yn cynnwys:

- Ymgyrch cyfryngau a chyfryngau digidol
- Dosbarthu arolwg trwy gylchlythyr y Cyngor ("Newsline"), ar wefan y Cyngor ac ym mob un o brif adeiladau a llyfrgelloedd y Cyngor
- Wedi cyfathrebu'n ysgrifenedig â grwpiau'r rhanddeiliaid (gan gynnwys Cynghorwyr, Cymunedau Tref a Chymuned)
- Sgyrsiau wyneb yn wyneb
    - Sesiynau galw heibio mewn 9 llyfrgell ledled y Fwrdeistref Sirol
    - Cyfarfod y "Panel Safbwynt" ar 25 Tachwedd 2019
- Cyfarfodydd wyneb yn wyneb ychwanegol gyda:
    - Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
    - Pwyllgorau Craffu Arbennig
    - Undebau Llafur a grwpiau rhanddeiliaid allweddol eraill

Mae prif elfennau'r broses ymgysylltu ac ymgynghori wedi'u crynhoi isod. Gellir dod o hyd i ragor o fanylion am bob elfen o'r ymgynghoriad cyhoeddus a rhanddeiliaid yn is-atodiadau'r adroddiad hwn.

## Ymgyrch Cyfryngau a Chyfryngau Digidol

Cyn lansio'r ymgynghoriad a thrwy gydol y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd ystod o weithgaredd gwe, cyfryngau a chyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa ariannol sy'n wynebu'r Cyngor ac i hyrwyddo ac annog trigolion i gymryd rhan a dweud eu dweud ar y cynigion arbedion drafft.

Elfen allweddol o'r gweithgareddau cyn, ac yn ystod, y cyfnod ymgynghori oedd canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth o'r sefyllfa ariannol a'r rhesymau dros y Cyngor yn wynebu gorfod gwneud penderfyniadau ariannol mor anodd.

Amlygodd y pwysau ariannol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hariannu, y rôl sylweddol (ond cymharol fach yn y darlun ehangach) sydd gan Dreth y Cyngor o ran ariannu gwasanaethau'r Cyngor a'r rhesymeg dros y Cyngor yn gofyn i drigolion i dalu mwy, trwy Dreth y Cyngor, ar gyfer y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn.

Yn dilyn setliad dros dro cadarnhaol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr, atgoffodd yr ymgyrch cyfryngau a chyfryngau digidol drigolion am bwysigrwydd dweud eu dweud ar y gwasanaethau sydd bwysicaf iddynt.

Roedd y gweithgareddau a wnaed fel rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys:

- Fideo
- Cynnwys gwe
- Ffeithlun/taflen wybodaeth
- Datganiadau i'r cyfryngau
- Cyfryngau digidol gan gynnwys Facebook, Twitter a NewsOnline

## Arolwg

Datblygwyd holiadur penagored byr i geisio barn ar y cynnig cyllideb drafft. Mae modd gweld copi o'r holiadur yn **Is-atodiad 1**.

Cafodd yr arolwg a'r wybodaeth ymgynghori ategol (cynigion drafft, Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau a thempledi cyllideb ar gyfer pob cynnig) eu cynnwys ar wefan y Cyngor trwy gydol y cyfnod ymgynghori gyda baner amlwg ar y dudalen flaen a dolen yn uniongyrchol i'r arolwg.

Roedd manylion y cynigion cyllideb drafft wedi'u hamlygu ar dudalen flaen rhifyn Rhagfyr 2019 o "Newsline"; cylchlythyr y Cyngor. Roedd rhagor o wybodaeth, ynghyd â'r holiadur, wedi'i chynnwys yn nhudalennau canol y cyhoeddiad. Caiff "Newsline" ei ddosbarthu i bob cartref yn y Fwrdeistref Sirol.

## Cyfathrebu Ysgrifenedig gyda'r rhai yr effeithir arnynt yn uniongyrchol a grwpiau rhanddeiliaid allweddol

Rhannwyd manylion y cynigion a dolen i'r arolwg yn eang gydag ystod o randdeiliaid a grwpiau allweddol (fel yr amlinellir yn **Is-atodiad 2**) drwy e-bost a/neu ar ffurf argraffedig fel y bo'n briodol.

Ymgysylltwyd yn uniongyrchol â'r sawl yr ystyriwyd y byddai cynigion yn cael effaith uniongyrchol arnynt, gan gynnwys:

- Cleientiaid 'Meals Direct'
- Rhieni - mewn perthynas â hebryngwyr croesfannau ysgolion a chynnydd i brisiau prydau ysgol
- Sefydliadau sector gwirfoddol (Swyddfa Cyngor ar Bopeth, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO) a Groundwork)

## Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb

O ganlyniad i'r etholiad ar 12 Rhagfyr 2019, doedd dim modd i aelodau etholedig gymryd rhan yn yr ymgysylltu cyhoeddus wyneb yn wyneb ynghylch y cynigion cyllideb ar gyfer 2020/21 fel y gwnaethant mewn blynyddoedd blaenorol.

### *Sesiynau Galw Heibio Cyhoeddus*

Cynhaliwyd sesiynau wyneb yn wyneb mewn 9 llyfrgell ledled y Fwrdeistref Sirol rhwng 27 Tachwedd a 9 Rhagfyr 2019, fel y dangosir yn **Nhabl 1**.

Roedd swyddogion o'r Timau Gwella Gwasanaethau a Phartneriaethau/Cyfathrebu a Chyllid Corfforaethol wedi hwyluso'r sesiynau galw heibio gydag uwch swyddogion. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r sesiynau yn y lleoliadau ac ym mhrif adeiladau'r Cyngor ledled y Fwrdeistref Sirol. Gofynnwyd i Gynghorwyr Lleol hyrwyddo'r sesiynau ac anfonwyd negeseuon atgoffa rheolaidd trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Anogwyd trigolion i ddod i siarad â swyddogion i ddysgu rhagor am y cynigion drafft ac i roi adborth trwy lenwi holiadur. Roedd y dull hwn yn caniatáu rhyngweithio wyneb yn wyneb ag unigolion ac yn annog trafodaeth.

Yn y 9 sesiwn galw heibio, cymerodd **68** o drigolion ran mewn trafodaeth gyda'r swyddogion gyda Llyfrgell Coed Duon yn gweld y mwyafrif o gyfranogwyr. Cymerodd nifer yr amser hefyd i bleidleisio ar y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor a chymryd copi o'r arolwg i'w gwblhau. Roedd cyfansoddiad demograffig y mynychwyr yn gwyro tuag at grwpiau oedran hŷn, gyda nifer fwy o ferched yn bresennol na dynion.

**Tabl 1: Sesiwn Wyneb yn Wyneb**

| **Dyddiad ac amser** | **Lleoliad** | **Wedi ymgysylltu â** |
|---|---|---|
| 27.11.19 (10.00am - 12.30pm) | Llyfrgell Rhymni | 5 |
| 27.11.19 (3.30pm - 6.00pm) | Llyfrgell Caerffili | 6 |
| 28.11.19 (10.00am - 12.30pm) | Lyfrgell Trecelyn | 9 |
| 29.11.19 (10.30am - 1.00pm) | Canolfan Adnoddau'r Rhosyn Gwyn, Tredegar Newydd ( a digwyddiad y Rhwydwaith Rhieni PLANET yng Nghanolfan Gymunedol Fochriw) | 9 (6) |
| 02.12.19 (10.00am - 1.00pm) | Llyfrgell Bargod | 7 |
| 04.12.19 (2.00pm - 4.00pm) | Llyfrgell Nelson | 8 |
| 05.12.19 (10.30am - 12.30pm) | Llyfrgell Coed Duon | 15 |
| 06.12.19 (10.30am - 12.30pm) | Llyfrgell Ystrad Mynach | 5 |
| 09.12.19 (3.00pm - 6.00pm) | Llyfrgell Palas Rhisga | 4 |

## Cyfarfod y "Panel Safbwynt"

Ar ddydd Llun 25 Tachwedd 2019, daeth **27** o drigolion o ledled y Fwrdeistref Sirol i gyfarfod yn Nhŷ Penallta. Roedd y grwpiau a oedd wedi'u cynrychioli yn cynnwys Panel Safbwynt Bwrdeistref Sirol Caerffili, Fforwm Ieuenctid Caerffili, Rhwydwaith Rhieni Caerffili a'r Fforwm 50+ Caerffili.

Cyn y cyfarfod, cafodd mynychwyr fanylion ynghylch y cynigion a chawsant eu croesawu gan Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, wrth gyrraedd. Ar ôl gwrando ar gyflwyniad gan y Pennaeth Cyllid Corfforaethol yn Siambr y Cyngor, gofynnwyd i'r mynychwyr bleidleisio dros eu dewis ar gyfer cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Yna fe'u rhannwyd yn grwpiau llai lle cawsant eu gwahodd i drafod y cynigion drafft yn fwy manwl.

Nod y cyfarfod oedd hwyluso trafodaeth mewn perthynas â'r canlynol:

- yr arbedion arfaethedig yr oedd y cyfranogwyr yn cytuno ac yn anghytuno â hwy fwyaf
- awgrymiadau ar gyfer dulliau amgen o gyflawni'r arbedion gofynnol

- sut y gall y Cyngor weithio gyda'n cymunedau i ddarparu gwasanaethau'n wahanol

Trwy gydol y drafodaeth, roedd uwch swyddogion ar gael i egluro manylion yn ymwneud â'r cynigion drafft a darparu cyd-destun lle bo angen.

## Ymgysylltu Wyneb yn Wyneb Ychwanegol â Rhanddeiliaid

Cynhaliwyd trafodaethau wyneb yn wyneb ychwanegol gyda

**Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol**

Cyn cyfarfod llawn Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol, cyfarfu Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol ar 20 Tachwedd i drafod y cynigion cyllideb yn fanwl.

Cyfarfu Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol ar 5 Rhagfyr 2019 i ystyried y cynigion cyllideb drafft ar gyfer 2020/21. (Dim ond nodiadau drafft y cyfarfod oedd ar gael adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac mae modd eu gweld yn **Is-atodiad 3**).

**Undebau Llafur**

Ymgynghorwyd â'r Undebau Llafur ar y cynigion cyllideb drafft trwy ein proses Cyd-bwyllgor Ymgynghorol mewnol.

**Pwyllgorau Craffu Arbennig**

Mae pob pwyllgor craffu yn cynnwys 16 cynghorydd ac mae ganddo rôl 'gwarchod' statudol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau yn gywir ac yn atebol am ei weithredoedd lle bo angen. Cynhaliwyd cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu Arbennig canlynol i ystyried y cynigion cyllideb drafft a'r cynllun ariannol tymor canolig ar gyfer 2020/21:

Gwasanaethau Cymdeithasol - 3 Rhagfyr 2019

Tai ac Adfywio - 5 Rhagfyr 2019

Addysg - 9 Rhagfyr 2019

Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd - 10 Rhagfyr 2019

Polisi ac Adnoddau - 11 Rhagfyr 2019

Cofnodir manylion trafodaethau'r Pwyllgorau Craffu y tu allan i'r adroddiad hwn, ac maen nhw ar gael ar wefan y Cyngor www.caerffili.gov.uk .


# Ymatebion

## Arolwg

Cyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd i'r arolwg oedd 371 (5 ohonynt yn Gymraeg).

Roedd 95% o'r ymatebwyr yn drigolion y Fwrdeistref Sirol ac roedd dosbarthiad daearyddol da o bob rhan o'r ardal, fel y dangosir ym **Map 1**. Roedd 52% o'r ymatebwyr yn fenywaidd a 42% yn wrywaidd. Nododd 15% fod ganddyn nhw anabledd. Mae modd gweld proffil llawn yr ymatebwyr yn **Is-atodiad 4**. Mae modd gweld crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd trwy'r arolwg yn **Is-atodiad 5**.

**Map 1: Dosbarthiad cod post o ymatebwyr yr arolwg**




© Crown Copyright. All rights reserved. Caerphilly County Borough Council, 100025372, 2019
© Hawlfraint y Goron. Cedwir pob hawl. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, 10025372, 2019

Derbyniwyd ymatebion pellach gan drigolion drwy negeseuon e-bost, llythyron a chyfryngau cymdeithasol. Ar ben hynny, derbyniwyd ymatebion ysgrifenedig gan y cynrychiolwyr etholedig / grwpiau / sefydliadau canlynol

**Is-atodiad 6 - Crynodeb o'r ymatebion ychwanegol a dderbyniwyd.**

a) Llythyr gan Swyddfa Cyngor ar Bopeth Caerffili a Blaenau Gwent
b) Ymateb gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (GAVO)
c) Ymateb gan Gyngor Cymuned Gelligaer
d) Ymateb gan Gyngor Cymuned Llanbradach a Phwll-y-pant
e) Ymateb gan Bartneriaeth Cymunedau Cwm Aber
f) Ymateb gan Gyngor Tref Coed Duon
g) Ymateb gan Gyngor Cymuned Bedwas, Tretomos a Machen
h) Ymateb gan y Cynghorydd James Pritchard
i) Ymateb gan Croeso Club
j) Ymateb gan Groundwork
k) Ymateb gan Hefin David, AC
l) Ymateb gan Gyngor Cymuned Nelson
m) Ymateb gan Bwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
n) Ymateb gan Wayne David, AS
o) Ymatebion ysgrifenedig ac e-byst ychwanegol a ddaeth i law

**Is-atodiad 7 - Crynodeb o drafodaeth cyfarfod y Panel Safbwynt**

**Is-atodiad 8 - Adborth o'r sesiynau galw heibio**

**Is-atodiad 9 - Crynodeb o'r ymatebion cyfryngau cymdeithasol**

## Deisebau

Derbyniwyd nifer o ddeisebau, a chânt eu cyflwyno a'u hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r ymgynghoriad:

1. Save our Children, Save our Crossing Patrol – Ysgol Gynradd Waunfawr, Crosskeys. 271 llofnod ac 1 llythyr
2. Save our Crossing Lady – Ysgol Gynradd Cwmcarn – 197 llofnod
3. We the undersigned call of (sic.) Caerphilly County Borough Council, not to go ahead with the proposed decommissioning of CCTV Cameras in the villages of Senghenydd and Abertridwr, as part of its budget proposals for 2020-21.

# Canfyddiadau a Themâu Allweddol


## Cynnydd yn Nhreth y Cyngor (239 ymateb)

O ran y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor, gofynnod yr arolwg i ymatebwyr ddewis o'r 4 opsiwn canlynol:

1. Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor (6.95%)
2. Nid wyf yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor – mae'n ormod. Ond, byddwn yn cefnogi cynnydd llai yn nhreth y cyngor.
3. Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor a byddwn yn fodlon talu cynnydd mwy fyth pe bai angen.
4. Dydw i ddim yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor o gwbl.

**Graff 1** mae'n dangos y byddai 25% yn cefnogi'r cynnydd ac 8% arall yn barod i dalu cynnydd uwch, gyda 27% yn cefnogi cynnydd is. Serch hynny, dydy 40% ddim yn cefnogi cynnydd yn Nhreth y Cyngor o gwbl.

**Graff 1: Dewis ar gyfer Cynnydd Treth y Cyngor (n= 336)**




Mae dadansoddiad o destun yr ymatebion yn nodi'r rhesymau y tu ôl i'r dewisiadau ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor

## Os nad trwy gynnydd yn Nhreth y Cyngor, pa fodd arall y gallwn ni gyrraedd yr arbedion angenrheidiol, yn eich barn chi

Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo ei bod yn annheg i ddisgwyl i drigolion dalu rhagor pan mae eu gwasanaethau'n cael eu gostwng a bod y cynnydd arfaethedig yn rhy uchel tra bod costau byw eraill yn cynyddu.

Roedd y setliad mwy dymunol gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr wedi'i nodi gan ymatebwyr a oedd o'r farn y byddai cynnydd yn nhreth y cyngor, felly, yn ddiangen.

Roedd nifer o ymatebion tebyg i'r cwestiwn yma o ran "syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau'n wahanol er mwyn diwallu anghenion y trigolion heddiw ac yn y dyfodol" isod.

## Barnau ynghylch y cynigion arbedion

Mae'r meysydd o bryder penodol a'r sawl lle'r oedd lefel o gytundeb â'r cynigon wedi'u hamlygu isod:

***Meysydd o bryder uchaf***

- Cau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Trehir
- Gostyngiad o 2% i gyllideb ysgolion
- Hebryngwyr croesfannau ysgolion
- Cyllideb cynnal a chadw'r priffyrdd
- Toriadau i'r sector gwirfoddol
- Cyllideb cynnal a chadw'r goleuadau stryd (roedd ambell sylw yn cyfeirio at ddiffodd y goleuadau yn hytrach na'r cynnig hwn yn benodol)
- Codi tâl am wastraff swmpus
- Lleihau nifer y staff glanhau
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Teledu Cylch Cyfyng
- Cynnydd i brisiau prydau ysgol
- Meals Direct
- Canolfan Gymunedol
- Codi tâl am reoli plâu

***Barn Gymysg***

Roedd barnau cymysg o ran uno'r Gwardeiniaid Diogelwch Cymunedol gyda Thîm Gorfodi Cyffredinol Iechyd yr Amgylchedd.

Gwasanaeth Llyfrgelloedd – roedd barnau cymysg o ran y gwasanaeth llyfrgelloedd. Roedd rhai o'r farn bod toriadau'n briodol ac eraill yn teimlo bod llyfrgelloedd yn adnodd gwerthfawr y dylid ei ddefnyddio'n fwy aml.

### *Meysydd y cytunwyd arnynt*

Roedd cytundeb cyffredinol y dylai'r Cyngor weithio tuag at fod yn fwy effeithlon, dileu swyddi gwag a lleihau effaith y cynigion arbedion ar drigolion lle bynnag y bo modd.

Cynyddu ffioedd: ac eithrio cynyddu ffioedd y gwasanaeth 'Meals Direct', prydau ysgol, rheoli plâu a gwastraff swmpus (wedi'i nodi uchod), roedd cytundeb cyffredinol o ran cynyddu ffioedd ar gyfer gwasanaethau penodol er enghraifft cynllunio – incwm o ganlyniad i godi tâl am gyngor a phrydau staff.

### *Themâu cyffredinol*

Themâu cyffredinol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad

- Cafodd rhai cynigion eu hystyried yn wrthgynhyrchiol, er enghraifft
    - cau canolfan Trehir a chynyddu'r ffioedd am gasglu gwastraff swmpus yn arwain at ragor o dipio anghyfreithlon
    - tynnu cyllid o'r sector gwirfoddol yr ystyrir ei fod yn cynorthwyo gwaith y Cyngor
- Pryderon ynghylch diogelwch (hebryngwyr croesfannau ysgolion/goleuadau'r stryd ac i raddau llai Teledu Cylch Cyfyng / Wardeiniaid Diogelwch Cymunedol)
- Pryderon dros effaith rhai o'r cynigion ar yr amgylchedd er enghraifft
    - ffioedd ymdrin â llygod mawr
    - Cau Canolfan Amwynder Dinesig Trehir
    - Ffioedd gwastraff swmpus
- Pryderon dros yr effaith ar y sawl sydd fwyaf agored i niwed (yn benodol pobl hŷn, pobl ifanc a phobl ag anableddau) a'r sawl sydd dan anfantais
- Roedd nifer o sylwadau ynghylch
    - y Cyngor yn gwastraffu arian
    - bod gormod o swyddogion uwch a Chynghorwyr, a
    - talu staff uwch a chynghorwyr gormod

### *Goblygiadau cydraddoldeb*

Amlygodd ymatebwyr sawl maes lle'r oeddent yn teimlo y byddai'r cynigion yn cael effaith niweidiol ar y sawl yn ein cymunedau sydd fwyaf agored i niwed ar sail eu nodweddion gwarchodedig, er enghraifft:

- Hebryngwyr croesfannau ysgolion (oedran, gofalyddion)
- Prydau ysgol a 'Meals Direct'
- Teledu Cylch Cyfyng a lleihau'r goleuadau stryd (oedran, rhyw ac anabledd)
- Cynnal a chadw'r priffyrdd a llwybrau troed (anabledd)
- Llyfrgelloedd (oedran, anabledd)

Cyfeiriodd nifer at yr effaith economaidd-gymdeithasol y byddai rhai o’r cynigion yn ei chael, er enghraifft byddai cynnydd i ffioedd a gostyngiad i drafnidiaeth yn cael effaith niweidiol uwch ar y sawl sydd ag incwm llai.

## Syniadau ar gyfer darparu gwasanaethau’n wahanol er mwyn diwallu anghenion trigolion heddiw a’r dyfodol

Daeth sawl thema ac awgrym i'r amlwg:

- Adolygu arferion gweithio a strwythurau mewnol
    - Lleihau staff rheoli uwch
    - Staff ag aml-sgiliau
    - Lleihau biwrocratiaeth ac osgoi dyblygu
- Rhannu adnoddau - cydweithredu, gweithio cydgysylltiedig, cyd-gaffael
- Canolbwyntio ar flaenoriaethau - bod yn glir beth ydyn nhw
- Cynhyrchu incwm i ariannu buddsoddiad mewn gwasanaethau allweddol
- Bod yn greadigol
- Lleihau nifer yr aelodau etholedig lleol
- Ystyried yr effaith amgylcheddol a lleihau carbon wrth ddarparu gwasanaethau
- Digidol ond nid er anfantais cyswllt wyneb yn wyneb i'r rhai sydd ei angen - gwasanaethau sy'n hygyrch i bawb - gwell trafnidiaeth
- Cynllunio tymor hwy yn hytrach na gwariant adweithiol - atal
- Defnyddio data i wneud penderfyniadau gwybodus ac wrth gynllunio ymlaen llaw
- Tryloywder
- Gweithio gyda chymunedau - ymgynghori'n fwy effeithiol ac ystyrlon - wedi'i egluro'n glir
- Gweithio gyda busnesau
- Blaenoriaethu gwasanaethau addysg ac ieuenctid - mae'r rhain yn sylfeini allweddol ar gyfer cymunedau ffyniannus yn y dyfodol
- Defnyddio gwirfoddolwyr

## Sut y gall y gymuned ehangach weithio i gynorthwyo Cyngor i ddarparu gwasanaethau'n wahanol

Themâu rheolaidd allweddol yn y sylwadau a dderbyniwyd:

- Gwella ymgysylltiad â chymunedau
    - Mae pobl yn teimlo'u bod nhw wedi'u hymddieithrio. Mae angen estyn allan ac adennill ymddiriedaeth y cymunedau - heb hyn, ni fydd cymunedau'n cymryd perchnogaeth a chynorthwyo'r Cyngor i helpu i ddarparu gwasanaethau
    - Bod yn atebol

    - Dangos bod y Cyngor yn gwerthfawrogi barn trigolion a'i fod wedi gwrando
    - Ymgysylltu â phobl ifanc trwy addysg, ysgolion
    - Mae dealltwriaeth yn allweddol - sicrhau bod gan drigolion ddealltwriaeth glir o rôl y Cyngor a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu
- Cynorthwyo a defnyddio gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol
    - Nifer eisoes yn gwirfoddoli
    - Parhau i gynorthwyo sefydliadau gwirfoddol
    - Darparu cymhellion i wirfoddoli a chydnabod a gwerthfawrogi sgiliau
    - Annog a chynorthwyo grwpiau cymunedol lleol (e.e. trwy gyngor a chefnogaeth gyfreithiol) i gymryd rhagor o gyfrifoldeb
- Rhannu adnoddau - rhwng meysydd gwasanaeth, gyda phartneriaid, sefydliadau gwirfoddoli lleol, busnesau lleol ac ehangach gydag awdurdodau cyfagos
    - Defnyddio adeiladau presennol (e.e. llyfrgelloedd) fel Hybiau ar gyfer darparu gwasanaethau trwy gydleoli (i gynnwys sefydliadau gwirfoddol)
- Trosglwyddo asedau i gymunedau e.e. canolfannau cymunedol, caeau chwarae - cymunedau i gymryd cyfrifoldeb
- Rhesymoli asedau - lleihau nifer yr adeiladau swyddfa ac ati
- Croesawu technoleg wrth ddarparu gwasanaethau yn fwy effeithlon
- Codi tâl am wasanaethau - os yw pobl eisiau eu defnyddio, byddant yn talu

**Rhestr o Is-atodiadau:**

1 Arolwg yr Ymgynghoriad
2 Rhestr o randdeiliaid
3 Nodiadau drafft cyfarfod Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol
4 Proffil o ymatebwyr yr arolwg
5 Crynodeb yr arolwg o'r sylwadau (wedi'i olygu)
6 Ymatebion ysgrifenedig ychwanegol a ddaeth i law
7 Adborth o Gyfarfod y Panel Safbwynt
8 Adborth o'r sesiynau galw heibio
9 Crynodeb o sylwadau Cyfryngau Cymdeithasol